

# Doniau

## Darllen: Mathew 25:29

Ryw nos Sul, roeddwn wedi pregethu ar ‘ddoniau’ a’r defnydd ohonynt. Wedi’r oedfa daeth gwraig ataf yn ddagreuol gan agor ei chalon a dweud nad oedd ganddi hi’r un ddawn. ‘Fedra i wneud dim,’ meddai. Roeddwn wedi dod i adnabod y wraig hon yn dda yn ystod cyfnod fy ngweinidogaeth ac yn gwybod am ddwy ddawn arbennig oedd ganddi. Gan y byddwn yn aros yn y pentref ar y Sul byddai’r aelodau’n fy nghrosawu i’w haelwydydd rhwng oedfaon. Nid dyma’r lle i gymharu aelwydydd, ac nid dyna fy mwriad o gwbl, ond ar aelwyd y wraig hon y byddwn yn blasu’r grefi mwyaf godidog – yn enwedig y grefi efo’r cig eidion. Ac nid yn unig y grefi, ond y ffordd yr oedd wedi arlwyo’r bwrdd, popeth yn ei le yn drefnus a chymen. Ni soniais air am hyn pan ddywedodd wrthyf na allai wneud dim, ond crybwyllais rywbeth arall wrthi. Gofynnais iddi pwy oedd wedi gosod y blodau ar y bwrdd yn y sêd fawr. ‘Y fi,’ meddai’n wylaidd a swil. Ac meddwn innau wrthi, ‘Mae’n ddawn arbennig, ac felly peidiwch byth â dweud na fedrwch wneud dim’. Dydw i ddim yn meddwl fod yr ateb wedi ei phlesio o gwbl. Dyna ei natur wrth gwrs; gwraig ostyngedig oedd yn gweld y gorau ym mhawb arall ond yn gweld dim rhinwedd yn ei bywyd ei hun.

Yn nameg y Codau Arian (Mathew 25:14–30) mae Iesu’n atgoffa’i wrandawyr mor bwysig yw defnyddio ein doniau. Yn y ddameg, mae dau was yn ufuddhau ond mae’r trydydd yn claddu’r god a roddwyd iddo, sef cadw a diogelu’r hyn a roddwyd iddo. A dyna oedd gwendid y Phariseaid yng nghyfnod Iesu; cadw a diogelu’r Gyfraith a’r defodau Iddewig i’w cenedl eu hunain, heb sylweddoli bod Duw’n galw arnyn nhw i fuddsoddi mewn cenhadaeth fyd-eang. Methiant a diffyg menter oedd hanes y trydydd gwas a dderbyniodd, yn gwbl haeddiannol, gerydd y Meistr: ‘Y gwas drwg a diog’ (26). Geiriau llym a digyfaddawd. Geiriau sy’n mynd i’r byw.

Dangos mae'r ddameg fod y rhai sydd yn derbyn yn gorfod rhoi cyfrif o'u goruchwyliaeth. Cymerwyd y dalent oddi ar y gwas drwg a'i rhoi i'r un oedd ganddo ddeg, am fod hwnnw wedi defnyddio'i ddoniau ac wedi buddsoddi'n helaeth. Y mae rhoddion Duw, o'u defnyddio, yn cynyddu; ond o'u hesgeuluso, maent yn siŵr o ddiflannu. Mae neges y ddameg yn glir; mae'n rhaid i ni wneud y defnydd gorau o roddion Duw, a'u defnyddio i'r eithaf. Mae'n hen bryd i ni wneud y gorau o'r doniau a'r rhoddion a roddwyd i ni. Mae gan bob un ohonom ddoniau unigryw, ac mae Iesu'n ein hatgoffa nad maint ein doniau sy'n bwysig ond y defnydd a wnawn ohonyn nhw. Nid gofyn pwy sydd bwysicaf a wna'r Cristion, ond cydnabod ein bod oll yn bwysig a chydweithio er mwyn Duw.

### **Myfyrdod pellach:**

Dadansoddwch pa ddoniau sydd gennych chi.

Trafodwch y ffaith fod cod arian y trydydd gwas wedi mynd i'r hwn oedd ganddo fwyaf.